PRYDAIN YN Y BYD

Mae Cristnogion yn cydnabod ein bod yn byw ein bywydau ar gynfas ehangach na'n hunan-fudd a bod ein cyfrifoldebau'n ymestyn y tu hwnt i ffiniau ein gwledydd. Credwn y crëwyd pob bod dynol yn y byd ar lun a delw Duw ac fe'n gorchmynnir i garu ein cymdogion fel ni ein hunain. Pan ofynnir i Iesu, 'Pwy yw fy nghymydog?', mae'n adrodd dameg y Samariad Trugarog, gan ddangos bod ein cyfrifoldebau at ein gilydd yn goresgyn ffiniau daearol. Fe'n gelwir i geisio cyfiawnder a heddwch ar gyfer holl blant Duw. Gelwir Prydain i gyfrannu at hynny fel rhan o gymuned ryngwladol o wledydd annibynnol.



Mae deg y cant o boblogaeth y byd, sef 736 miliwn o bobl, yn byw o dan y terfyn tlodi rhyngwladol, sef £1.50 y dydd.

Y CYD-DESTUN

AMDDIFFYN A DIOGELWCH

I'r rhan fwyaf o boblogaeth y byd, mater o allu sicrhau bwyd, dŵr, addysg a gofal iechyd yw 'diogelwch', a phethau yw'r rheini nad oes gan y lluoedd arfog fawr o ddylanwad arnynt. Mae gwariant milwrol yn y Deyrnas Unedig wedi cynyddu i 2% o gynnyrch domestig gros, sef deirgwaith yr hyn a gaiff ei wario ar gymorth ar gyfer datblygu rhyngwladol. Mae cefnogaeth ryngwladol i Gytuniad y Cenhedloedd Unedig ar Wahardd Arfau Niwclear (TPNW) yn cynyddu ond mae Llywodraeth y DU yn ei wrthwynebu.

DATBLYGU RHYNGWLADOL

Er gwaethaf y gwaith da a wnaed ar fynd i'r afael â thlodi byd-eang dros y tri degawd diwethaf mae llawer mwy o waith i'w wneud i oresgyn anghyfartaledd yn y byd ac i sicrhau cyfle i bawb ffynnu. Mae un Llywodraeth Brydeinig ar ôl y llall wedi ymrwymo i wario 0.7% o incwm y wlad ar gymorth ar gyfer datblygu tramor, ac mae hynny'n ffordd bwysig o fynd i'r afael â thlodi. Mae'n hollbwysig bod yr ariannu hwnnw'n canolbwyntio ar y bobl dlotaf a'i fod yn cyfrannu at nodau datblygu cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

Mae'r nifer o wledydd lle mae'r llywodraeth yn gosod cyfyngiadau lefelau 'uchel' neu 'uchel iawn' ar grefydd wedi codi o 40 i 52.

CYSYLLTIADAU MASNACH YN Y DYFODOL

Os bydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd a'r Undeb Tollau bydd yn gallu datblygu cysylltiadau masnachu newydd â gwledydd eraill. Gall y rheini greu cyfleoedd ond am ba gost y dylid ceisio'r cytundebau masnach hynny? Byddai cynnal asesiadau effaith a chaniatáu craffu Seneddol arnynt yn sicrhau nad ydynt yn tanseilio nac yn erydu ymrwymiadau i fynd i'r afael â thlodi byd-eang a'u bod yn gwarchod hawliau dynol ac yn bodloni safonau amgylcheddol uchel.

RHYDDID CREFYDD A CHRED

Mewn llawer rhan o'n byd, mae hawl pobl i arfer crefydd a chred o dan fygythiad. Gwrthodir cyfleoedd a hawliau i bobl ac maent yn wynebu bygythiadau trais corfforol, carchar ac arteithio oherwydd eu ffydd. Mae awdurdodau gwladwriaethol yn aml yn cyfrannu at y gormes gan fethu yn eu cyfrifoldeb i amddiffyn grwpiau crefyddol lleiafrifol rhag cael eu bygwth neu eu herlid. Gallai Llywodraeth y DU yn y dyfodol fod â rhan allweddol mewn hyrwyddo rhyddid crefyddol a rhyddid cred fel hawliau dynol sylfaenol.

CWESTIYNAU I'W TRAFOD

Pa swyddogaeth a chyfrifoldebau sydd gan Brydain o safbwynt mynd i'r afael â thlodi byd-eang?

Pa fathau o gyfaddawd ydych chi'n meddwl a ddylai fod yn dderbyniol er mwyn sicrhau cytundeb masnach?

CWESTIYNAU I YMGEISWYR

Beth fyddwch chi'n ei wneud i sicrhau bod Prydain yn parhau i gyfrannu at y frwydr yn erbyn tlodi byd-eang?

Fyddech chi'n cefnogi rhoi'r hawl i Aelodau Seneddol graffu ar gytundebau masnach newydd a gaiff eu negodi gan y DU ar ôl Brexit, yn arbennig parthed eu heffaith ar hawliau dynol, tlodi a'r amgylchedd?

Sut fyddech chi'n hybu symud tuag at fyd heb arfau niwclear?